Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

ATODIAD 2









Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

## Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028

# Adroddiad blynyddol 2025-2026 – Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English

# Cynnwys


- Thema Strategol 1: Cynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg..……….………………..……..... 2-8
- Thema Strategol 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg……………………………...………..…..9-12
- Thema Strategol 3: Creu Amodau Ffafriol: Seilwaith a Chyd-destun………….................……. 13-18


Os bydd angen yr adroddiad hwn arnoch chi mewn print mwy neu fformat amgen, cysylltwch â'r Tîm Polisi, Llywodraethu a Pherfformiad ar 07805 771506 neu e-bostiwch: policy@npt.gov.uk

# Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2025-2026

## Thema Strategol 1: Cynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg

### Maes gwaith: Cefnogi gweithrediad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032

#### Cam Gweithredu: 1.1 Hyrwyddo'r grŵp Facebook 'Help gyda Gwaith Cartref Cymraeg' ymhlith yr holl ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg a'u teuluoedd

**Cynnydd 2025-2026:**

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot (MICNPT) wedi parhau i hyrwyddo'r grŵp Facebook 'Help gyda Gwaith Cartref Cymraeg' i rieni ledled ardal Castell-nedd Port Talbot drwy gydol y flwyddyn.

Er mwyn cefnogi twf ac effeithiolrwydd y grŵp, mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi:

- Rhannu gwybodaeth ac adnoddau o ansawdd uchel wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer rhieni.
- Mynychu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau lleol, gan gynnwys diwrnodau agored ysgolion a grwpiau rhieni a phlant bach.
- Cynnal stondinau gwybodaeth mewn digwyddiadau dan arweiniad partneriaid i gynyddu ymwybyddiaeth a darparu cefnogaeth uniongyrchol i deuluoedd.

Ar hyn o bryd mae 305 o aelodau yn y grŵp.

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn postio diweddariadau rheolaidd ynghylch y Gymraeg a digwyddiadau cenedlaethol, gan sicrhau bod rhieni'n parhau i ymgysylltu â'r gymuned ehangach sy'n siarad Cymraeg. Ar ben hynny, rydym yn parhau i greu a dosbarthu adnoddau pwrpasol y gall rhieni eu defnyddio gyda'u plant i gefnogi dysgu gartref.

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel rhan o gwrs 'Cymraeg yn y Cartref' yn Ysgol Tregeles. Maent yn parhau i weithio mewn partneriaeth agos â Dysgu Cymraeg Rhanbarth Bae Abertawe i hyrwyddo eu hamrywiaeth o gyrsiau Cymraeg i'r gymuned.

I gefnogi dysgwyr ymhellach, rydym yn cynnal sesiynau 'Caffi Cymraeg' ledled y sir. Mae'r sesiynau hyn yn gyfle hanfodol i ddysgwyr Cymraeg a siaradwyr rhugl fel ei gilydd ddefnyddio eu Cymraeg mewn amgylchedd cymdeithasol hamddenol y tu allan i'r ystafell ddosbarth ffurfiol.

Ar ben hynny, mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn hyrwyddo cyrsiau Cymraeg sydd ar gael yn weithredol wrth fynychu digwyddiadau cymunedol, gan dargedu rhieni a theuluoedd plant o fewn addysg cyfrwng Cymraeg yn benodol i annog dwyieithrwydd gartref.

## Cam Gweithredu: 1.2 Diweddaru a hyrwyddo’r llyfryn ‘Manteision Dwyieithrwydd’ ymhlith teuluoedd

**Cynnydd 2025-2026:**

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi datblygu fersiwn ddigidol o'r llyfryn, y gellir cael mynediad iddo drwy ddolen uniongyrchol neu god QR. Rydym yn arddangos y cod QR hwn ar stondinau gwybodaeth ac yn rhannu'r ddolen gyda rhieni yn ystod digwyddiadau cymunedol.

## Cam Gweithredu: 1.3 Hyrwyddo dwyieithrwydd i deuluoedd sy’n disgwyl baban

**Cynnydd 2025-2026:**

Mae 4 adeilad/lle gofal plant wedi cael eu tendro'n llwyddiannus i gynnig gofal plant yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd y 4 yn agor yn gynnar yn 2026, gan gynyddu faint o ddarpariaeth gofal plant Cymraeg sydd ar gael i deuluoedd o fewn CnPT.

Mae 292 o blant dwy oed a thair oed wedi cael mynediad at ofal plant a ariennir Dechrau'n Deg yn Gymraeg neu'n Ddwyieithog a ariennir yn ystod 25/26

Mae llawer o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar draws yr adran Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg i gefnogi teuluoedd, plant, darparwyr gofal plant a darparu gwasanaethau cymorth i deuluoedd.

Mae staff y Blynyddoedd Cynnar o fewn CBSCNPT a BIPBA yn cael eu haddysgu ynghylch manteision dwyieithrwydd, gan gynnwys siarad Cymraeg, fel y gellir trosglwyddo manteision yn hyderus i rieni a darparwyr gwasanaethau.

Timau’r Blynyddoedd Cynnar a Dechrau’n Deg yn cynnal gweithdai Cerddoriaeth “Cynefin” mewn lleoliadau gofal plant.

Lleoliadau gofal plant yn llwyddo i gyflawni ac yn gweithio tuag at ein Dyfarniad Cymraeg mewn Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar CBSCNPT, gan gynyddu lefel y Gymraeg a hyder yn ei defnyddio

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn cynnal sesiynau caneuon a rhigymau Cymraeg misol mewn llyfrgelloedd lleol ar gyfer babanod a rhieni newydd. Drwy gynnal y rhain mewn mannau cyhoeddus yn y llyfrgell, rydym yn sicrhau bod y sesiynau'n weladwy iawn ac yn hygyrch i bob aelod o'r gymuned.

Yn ogystal, mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi ymweld ag amryw o grwpiau rhiant a phlentyn bach a grwpiau babanod ledled yr ardal. Mae'r ymweliadau hyn yn caniatáu inni gyflwyno sesiynau canu Cymraeg difyr gan roi cyfle i siarad yn uniongyrchol â rhieni am fanteision hirdymor dwyieithrwydd.

Mae'r cyngor yn darparu darpariaeth Dechrau'n Deg i ychydig dros draean o blant ifanc ar draws yr awdurdod, yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mae'r sesiynau hyn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ymyriadau cynnar a chefnogaeth i deuluoedd, yn ogystal â datblygu sgiliau cynnar y plant ieuengaf, yn enwedig y rhai o gartrefi incwm isel.

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn darparu rhaglen o weithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol. Cynhelir ein sesiynau 'Canu ac Arwyddo Babanod' mewn llyfrgelloedd lleol gan ddefnyddio polisi mynediad agored (nid oes angen archebu) i sicrhau eu bod ar gael i bawb. Mae'r dull hwn wedi cynyddu amlygiad y gymuned i weithgareddau Cymraeg yn sylweddol.

## Maes gwaith: Trosglwyddiad iaith yn y cartref

### Cam Gweithredu: 1.4 Nodi argaeledd (wyneb yn wyneb ac ar-lein), cost a lleoliad cyrsiau Cymraeg a'u hyrwyddo ymhlith y trigolion

**Cynnydd 2025-2026:**

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi parhau gyda'r gwaith o gyfeirio rhieni at wefan a swyddogion Dysgu Cymraeg ABA a'r sesiynau Clwb Cwtch a ddarperir gan Mudiad Meithrin.

Maent hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth ag Addysg Oedolion yn y Gymuned Castell-nedd Port Talbot i ddarparu cwrs Cymraeg *"Dysgu Cymraeg gyda'ch plentyn"* yn Ysgol Cwmllynfell. Roedd y cwrs hwn am ddim i rieni ac roedd y plant hefyd wedi'u cynnwys ar ddiwedd y sesiwn i ymarfer gyda'i gilydd.

### Cam Gweithredu: 1.5 Datblygu a hyrwyddo sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith y trigolion

**Cynnydd 2025-2026:**

Drwy gydol y flwyddyn, cynhaliodd Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot stondinau gwybodaeth mewn amrywiol ddigwyddiadau dan arweiniad partneriaid i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg i rieni. Un uchafbwynt oedd eu cydweithrediad yn ystod gŵyl 'In It Together', lle gwnaethon nhw gyflwyno gweithgareddau Cymraeg ar stondin Gwasanaeth Ieuenctid CnPT - gan ddarparu llwyfan rhagorol i godi ymwybyddiaeth o'r iaith a chyfleoedd addysgol.

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot hefyd wedi hyrwyddo lleoliad Uned Y Cwm yn weithredol i rieni sydd â diddordeb mewn darpariaeth i hwyrddyfodiaid neu drosglwyddo eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg.

Er mwyn ymgysylltu â theuluoedd yn gynnar, mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn trefnu ac yn cynnal sesiynau Caneuon a Rhigymau Cymraeg misol mewn llyfrgelloedd ledled Castell-nedd Port Talbot. Mae'r sesiynau hyn yn rhad ac am ddim i fynychu heb fod angen archebu lle, gan ganiatáu inni drafod manteision addysg Gymraeg gyda rhieni mewn awyrgylch hamddenol wrth godi proffil yr iaith o fewn y sir.

Ar ben hynny, mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi cynnal sesiynau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Nod y sesiynau hyn yw codi ymwybyddiaeth a darparu cyfleoedd ychwanegol i blant a phobl ifanc ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'w cwricwlwm safonol.

## Maes gwaith: Cefnogi pobl i ddysgu/siarad Cymraeg

### Cam Gweithredu: 1.6 Darparu cyfleoedd i staff y Cyngor gael mynediad at lefelau priodol o gyrsiau dysgu/gwella Cymraeg

**Cynnydd 2025-2026:**

Mae cwrs e-ddysgu Cymraeg gorfodol y cyngor yn CnPT yn parhau i fod yn sylfaen ar gyfer cyflwyno staff i bwysigrwydd Cymraeg yn y gweithle. Mae'r cwrs yn ymdrin â hanes byr o'r Gymraeg, y gyfraith a pholisi, pam mae'r Gymraeg yn bwysig ac yn cynnwys gwybodaeth am Safonau'r Gymraeg ar dderbyn galwadau, negeseuon e-bost, trefnu a chadeirio cyfarfodydd, gwasanaethau cyfieithu a hyfforddiant.

Erbyn 31$^{ain}$ Mawrth 2026, roedd 4,725 o aelodau staff wedi cwblhau'r cwrs. Mae hyn yn cynrychioli 64.2% o'r gweithlu cyffredinol ac yn nodi cynnydd o 1,866 ers diwedd y flwyddyn flaenorol.

Mae'r cwrs e-ddysgu yn cael ei gynnal ar ein System Rheoli Dysgu Thinqi. Mae monitro ac adrodd ar gwblhau cyrsiau yn haws nag mewn systemau blaenorol, mae hygyrchedd i'r platfform a phrofiad cyffredinol y defnyddiwr o'r system wedi gwella'n aruthrol ac yn cyfrannu at y rhesymau pam rydym wedi gweld cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf yn nifer y cyrsiau a gwblhawyd. Mae'r cwrs hefyd wedi'i awtomeiddio fel bod pob gweithiwr newydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig ar ei ddiwrnod cyntaf o gyflogaeth.

Yn dilyn adnewyddu'r rhaglen sefydlu gorfforaethol yn 2024–2025, gwnaed y deunyddiau hyfforddi'n gwbl ddwyieithog, ac ehangwyd y cynnwys Cymraeg yn sylweddol. Cafodd y trosolwg gwreiddiol o ddwy sleid ar Safonau'r Gymraeg ei ddisodli gan adran 11 sleid sy'n rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r Safonau ac yn cyfeirio staff at adnoddau perthnasol. Yn ystod 2025-2026, cynhaliwyd tair sesiwn sefydlu corfforaethol, gyda chyfanswm o 243 o fynychwyr.

## Cam Gweithredu: 1.7 Creu a hyrwyddo adnoddau Cymraeg i deuluoedd a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol

### Cynnydd 2025-2026:

Gwelodd yr adran "Dysgu a Defnyddio'r Gymraeg" ar wefan y Cyngor gyfanswm o 705 o ymweliadau yn 2025-2026, cynnydd o 540 yn 2024-2025.

Parhaodd Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot i ddatblygu ystod o adnoddau drwy gydol y flwyddyn ar gyfer rhieni a phlant. Dosbarthwyd y deunyddiau hyn yn ystod sesiynau wyneb yn wyneb a'u gwneud ar gael yn ddigidol trwy'r dudalen Facebook Help gyda Gwaith Cartref Cymraeg.

I gefnogi dysgwyr sy'n oedolion, mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi creu adnoddau pwrpasol sydd wedi'u cynllunio i'w defnyddio mewn lleoliadau cymdeithasol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r gweithgareddau ymarferol hyn wedi'u hanelu'n benodol at hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg a meithrin hyder dysgwyr mewn sgwrs bob dydd.

Ar ben hynny, mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi cynhyrchu pecyn adnoddau cynhwysfawr ar gyfer pob clwb ieuenctid yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Mae'r pecyn hwn wedi'i gynllunio i gynorthwyo staff i gyflwyno gweithgareddau Cymraeg difyr yn eu clybiau. Er mwyn sicrhau cefnogaeth barhaus, mae pob clwb ieuenctid yn derbyn adnoddau thema

ychwanegol yn ystod ein cyfarfodydd cyn dechrau’r tymor. Drwy gynyddu presenoldeb Cymraeg o fewn lleoliadau ieuenctid, rydym yn llwyddo i hyrwyddo'r iaith i bobl ifanc mewn amgylchedd hamddenol ac anffurfiol.

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi parhau gyda’r gwaith o gyfeirio rhieni at wefan a swyddogion Dysgu Cymraeg ABA a'r sesiynau Clwb Cwtch a ddarperir gan Mudiad Meithrin.

Mae Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth ag Addysg Oedolion yn y Gymuned Castell-nedd Port Talbot i ddarparu cwrs Cymraeg Dysgu Cymraeg gyda'ch plentyn yn Ysgol Cwmllynfell. Roedd y cwrs hwn am ddim i rieni, gyda'r plant wedi'u cynnwys ar ddiwedd y sesiwn i ymarfer gyda'i gilydd.

## Cam Gweithredu: 1.8 Datblygu/cyfeirio ymlaen at gyrsiau priodol a chefnogaeth i athrawon a staff nad ydynt yn addysgu sy’n dysgu Cymraeg

### Cynnydd 2025-2026:

Mae tudalen ddynodedig yn yr ardal Hyfforddiant ar Cyswllt CnPT (mewnrwyd y cyngor). Mae hyn yn cynnwys dolen i raglen hyfforddiant Cymraeg ar-lein; cyfeirio at adnoddau Cymraeg Gwaith ac amlinelliad o fanteision dysgu Cymraeg i'r Cyngor ac i unigolion. Mae'r rhaglen hyfforddiant yn manylu ar amrywiol gyfleoedd sydd ar gael i'r gweithlu gan gynnwys:

- Darpariaeth cyrsiau corfforaethol
- Cyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned Castell-nedd Port Talbot
- Cyrsiau blasu ar-lein gan Cymraeg Gwaith yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg
- Offeryn asesu Helpwch fi i ddewis cwrs
- Cyrsiau Cymraeg ar gyfer y Sector Addysg
- Modiwlau hyfforddiant Gofal Cymdeithasol Cymru gan gynnwys Gofal a Chysur yn Gymraeg ar gyfer gweithwyr gofal lliniarol
- Cyfeirio at offer dysgu Cymraeg gan gynnwys apiau fel Duolingo, Say Something in Welsh, Podlediadau, Cerddoriaeth a gorsafoedd radio, adnoddau i blant.

Mae platfform Thinqi y cyngor yn parhau i ddatblygu ac mae'n blatfform cwbl ddwyieithog, mae cydraddoldeb rhwng y tudalennau Saesneg a Chymraeg ac mae hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Tîm Dysgu, Hyfforddi a Datblygu. Rydym yn

parhau i gryfhau'r cynnwys sydd ar gael ar y platfform gan roi mwy o gyfleoedd i'r gweithlu gael mynediad at ddysgu Cymraeg. Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud y canlynol:

- Datblygu catalog newydd ar gyfer Dysgu Cymraeg yn ardal y llyfrgell
- Integreiddio’r Gwasanaeth Cynhwysiant a’r Uned Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i ddefnyddio platfform Thinqi, sy'n golygu bod catalog hyfforddi llawn yr Uned yn cael ei reoli drwy’r platfform ac yn cynnwys 456 o weithwyr o’r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant.
- Cynnal amrywiol gynnwys e-ddysgu, adnoddau a gwybodaeth am ddigwyddiadau ar gyfer dysgu Cymraeg.

# Thema Strategol 2: Cynyddu defnydd o’r Gymraeg

## Maes gwaith: Cefnogi a hyrwyddo defnydd o’r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol 2022-2032

### Cam Gweithredu: 2.1 Archwilio cyfleoedd gyda’r Gwasanaeth Llyfrgelloedd i gynyddu ymwybyddiaeth o lyfrau/deunyddiau Cymraeg ymhlith y trigolion

**Cynnydd 2025-2026:**

Benthycwyd 6,816 o eitemau Cymraeg gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn 2025/26.

Dros y flwyddyn, cynhaliodd y gwasanaeth Llyfrgelloedd 195 o ddigwyddiadau Cymraeg gyda 1,684 o fynychwyr.
Roedd y digwyddiadau'n cynnwys Sesiynau Caneuon a Rhigymau, digwyddiadau i ysgolion, a boreau coffi i ddysgwyr Cymraeg.
Cynhaliwyd digwyddiadau Cymraeg fel rhan o Ŵyl Lyfrau Plant mis Hydref a rhaglen Sêr y Silffoedd.
Tyfodd casgliad y grŵp darllen am yr ail flwyddy

### Cam Gweithredu: 2.2 Archwilio cyfleoedd i gynyddu gwelededd y Gymraeg yn yr holl gyfleusterau hamdden a diwylliant

**Cynnydd 2025-2026:**

Cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd ym Mharc Margam ym mis Mai 2025 ac roedd yn llwyddiant ysgubol. Rhoddodd Pafiliwn CnPT brofiad cwbl ddwyieithog i ymwelwyr a thrigolion. Cynhyrchwyd holl arwyddion, dehongliadau a hyrwyddiadau cyfryngau cymdeithasol y Pafiliwn yn Gymraeg a Saesneg ochr yn ochr â fideos yn arddangos 'Antur' a 'Chreadigrwydd' yn CnPT. Roedd staff CnPT sy'n siarad Cymraeg yn bresennol drwy gydol yr wythnos i groesawu ymwelwyr ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn Gymraeg. Fe wnaethon ni hefyd groesawu ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddefnyddio ein gofod perfformio ar gyfer ymarferion.

Defnyddiodd ymgyrch Canmlwyddiant Richard Burton y Gymraeg yn gyson ar draws holl weithgarwch hyrwyddo'r ymgyrch. Cynhyrchwyd pob postiad cyfryngau cymdeithasol a’r hysbysebion digidol yn ddwyieithog. Roedd hyn hefyd yn cynnwys rhestrau digwyddiadau ar wefan bwrpasol RB100. Crëwyd cynnwys fideo hefyd yn Gymraeg a Saesneg i sicrhau hygyrchedd. Yng Ngala RB100, roedd gwahoddiadau'r digwyddiad a'r rhaglen brintiedig yn gwbl ddwyieithog.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd Canolfan Gelfyddydau Pontardawe raglen amrywiol o weithgarwch diwylliannol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan gefnogi amcanion Cymraeg ehangach y cyngor. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau cerddoriaeth Cymraeg, theatr i blant a rhaglenni tymhorol fel Hen Galan a oedd yn dathlu traddodiadau Hen Galan Cymru.

Cefnogodd Canolfan Celfyddydau Pontardawe gyfranogiad trwy ddigwyddiadau megis Eisteddfod y Dysgwyr, mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe a thrwy gynnal Eisteddfod Cwmtawe. Mae'r lleoliad hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot sydd wedi galluogi digwyddiadau cerddoriaeth a theatr Cymraeg ychwanegol, gan gynnwys perfformiadau gan y bandiau Cymraeg, Dros Dro a Dadleoli. Yn 2025-2026, cynhaliwyd cyfanswm o 16 o ddigwyddiadau Iaith a Diwylliant Cymru yng Nghanolfan Gelfyddydau Pontardawe, gyda dros 875 o fynychwyr.

Cynhaliwyd Eisteddfod Cwm Tawe 2026 yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe ar yr 28ain o Chwefror 2026. Yn ystod y digwyddiad hwn, daeth dros 1,000 o bobl drwy'r drysau. Roedd 88 o gystadlaethau i gyd, ar gyfer gwaith cartref a llwyfan, a chynhaliwyd 5 rhagbrawf ar gyfer cystadlaethau oedran cynradd oherwydd nifer y cystadleuwyr a gofrestrwyd. Roedd dros 500 o gystadleuwyr ar draws y cystadlaethau, gan gynnwys 12 côr neu barti canu; 5 parti adrodd; a 5 parti dawns. Daeth cyfanswm o 18 o ysgolion i gystadlu ar draws yr holl gystadlaethau, ac roedd 6 o'r rheini'n ysgolion cyfrwng Saesneg.

O fis Tachwedd 2026 ymlaen, mae Rheolwr Datblygu Celfyddydau a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn ei swydd yng Nghanolfan Gelfyddydau Pontardawe sy'n gwbl ddwyieithog, mae hyn yn cynyddu gwelededd y Gymraeg ac yn sicrhau y gall yr holl gyfathrebu a datblygu prosiectau gyda chymunedau, unigolion a sefydliadau ddigwydd naill ai yn Saesneg neu'n Gymraeg yn ôl yr angen.

Yn 2025-2026, cynhaliwyd dau ddigwyddiad Iaith a Diwylliant Cymru yn Neuadd Gwyn, Castell-nedd gyda dros 700 o fynychwyr i gyd.

## Cam Gweithredu: 2.3 Gweithio gyda phartneriaid i annog mwy o ddefnydd ac ymwybyddiaeth o'r iaith ym mhob clwb ieuenctid

**Cynnydd 2025-2026:**

Mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid CnPT, mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi datblygu pecyn adnoddau cynhwysfawr Cymraeg. Mae hwn wedi cael ei ddosbarthu i bob clwb ieuenctid o fewn yr awdurdod i'w ddefnyddio yn ystod eu sesiynau rheolaidd. Er mwyn sicrhau ymgysylltiad parhaus, darperir adnoddau thema ychwanegol i'r clybiau yn ystod pob cyfarfod cynllunio cyn dechrau'r tymor.

Cynhaliodd Gwasanaeth Ieuenctid CnPT a Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar y cyd dri chlwb ieuenctid Cymraeg pwrpasol ar draws yr awdurdod, gan ddarparu lle cymdeithasol hanfodol i bobl ifanc ddefnyddio'r iaith.

**Cam Gweithredu: 2.4 Archwilio gyda phlant a phobl ifanc sut mae modd defnyddio’r Gymraeg mewn cyd-destun mwy cymdeithasol.**

**Cynnydd 2025-2026:**

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi cynnal amryw o ddigwyddiadau yn ymwneud ag Ymgysylltu ag Ieuenctid a Cherddoriaeth, gan gynnwys:

- Disgos Tawel Cymraeg: Rydym wedi cyflwyno disgos tawel Cymraeg i ysgolion cynradd, gan roi ffordd hwyliog a modern i ddisgyblion ymgysylltu â cherddoriaeth gyfoes Gymraeg.
- Cerddoriaeth Fyw ac Adnoddau: Fe wnaethon ni drefnu i fand byw ymweld ag ysgolion lleol a datblygu Pecyn Karaoke pwrpasol i athrawon a disgyblion ei ddefnyddio ar ôl y perfformiad i gynnal diddordeb.
- Tanio'r Ddraig: Mewn partneriaeth â’r Siarter Iaith, mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn trefnu gig blynyddol Tanio’r Ddraig yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera, yn benodol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 o fewn y clwstwr cyfrwng Cymraeg.

**Cam Gweithredu: 2.5 Gweithio gyda cherddorion lleol i ddarparu sesiynau creadigol ar gyfer pobl ifanc – archwilio teithiau personol ym myd cerddoriaeth Gymreig, etc.**

**Cynnydd 2025-2026:**

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn gweithio mewn partneriaeth agos â Chanolfan Gelfyddydau Pontardawe i gyflwyno rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau Cymraeg drwy gydol y flwyddyn. Mae'r cydweithrediad hwn wedi ein galluogi i gynnal digwyddiadau rheolaidd, ar raddfa fwy, sydd yn eu tro yn llwyddo i gynyddu ein cynulleidfaoedd.

Traddodiadau a Dathliadau:

- Hen Galan: I ddathlu’r Hen Galan (Blwyddyn Newydd Cymru), cynhaliodd Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot weithdai boreol ar gyfer chwe ysgol i archwilio traddodiadau gwerin Cymru. Arweiniodd hyn at ddathliad cymunedol llwyddiannus a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gelfyddydau Pontardawe.

- Theatr y Cyfnod Sylfaen: Fe wnaethon ni hefyd drefnu pedwar perfformiad am ddim gan Siani Sionc yng Nghanolfan y Celfyddydau ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen ar draws yr awdurdod lleol.

Grwpiau Cerddoriaeth a Chymdeithasol Cymunedol:

- Iwcalili a Gwerin: Mae ein sesiynau iwcalili Cymraeg wedi bod yn hynod lwyddiannus, gyda'r grŵp bellach yn perfformio mewn digwyddiadau lleol. Rydym hefyd yn cynnal sesiwn strymio fisol yn y Pontardawe Inn i gerddorion chwarae alawon Cymraeg.
- Sesh Fach Cwmtawe: Mae'r fenter hon yn darparu lle croesawgar i bobl ddysgu alawon gwerin traddodiadol ac ymarfer eu sgiliau Cymraeg.
- Sesiwn Ganu Fisol: Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn cynnal digwyddiad canu cymunedol rheolaidd yn y Smiths Arms, Y Rhos, gan ddarparu llwyfan cyhoeddus i ganeuon Cymraeg a diwylliant lleol.

## Maes gwaith: Ehangu defnydd o’r Gymraeg yn y gweithle etc

### Cam Gweithredu: 2.6 Nodi a hyrwyddo cyfleoedd amgen ar gyfer hyfforddiant sgiliau iaith ymhlith staff y Cyngor

**Cynnydd 2025-2026:**

Cynhaliodd Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot un cwrs 'Hyder-ish' yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r ail garfan o “Hyder-ish” wedi'i chyflwyno i staff y Cyngor. Cwblhaodd cyfanswm o 6 aelod o staff y cwrs, sy'n canolbwyntio ar ailfeithrin hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau staffio, nid yw Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi gallu hwyluso cyrsiau pellach ar hyn o bryd.

### Cam Gweithredu: 2.7 Hyrwyddo a gwreiddio Polisi’r Cyngor ar gyfer defnydd mewnol o’r Gymraeg

**Cynnydd 2025-2026:**

Yn ystod 2025-2026, aeth y cyngor ymlaen i ddatblygu Polisi Defnydd Mewnol o’r Gymraeg, fel rhan o gynllun peilot dan arweiniad Comisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â’r maes gwaith hwn. Bwriedir cyhoeddi'r polisi yn ystod blwyddyn ariannol 2026-27 a bydd yn cyd-fynd â mentrau Cymraeg ehangach, sydd i gyd yn anelu at gynorthwyo staff i gyflawni eu rhwymedigaethau Cymraeg.

# Thema Strategol 3: Creu Amodau Ffafriol: Seilwaith a Chyd-destun

## Maes gwaith: Cynyddu gwelededd yr iaith ar draws yr ardal

**Cam Gweithredu: 3.1 Datblygu a gweithredu Strategaeth Diwylliant a Threftadaeth newydd sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg, a gwelededd yr iaith yng Nghastell-nedd Port Talbot**

**Cynnydd 2025-2026:**

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn parhau i gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (ysgolion ail iaith gynt) er mwyn meithrin agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith. Ar ben hynny, mewn cydweithrediad â Gwasanaethau Ieuenctid CnPT, fe wnaethom gyflwyno sesiynau Diwylliant a Threftadaeth pwrpasol i bobl ifanc ar draws yr awdurdod, gan gryfhau eu cysylltiad â'u hunaniaeth Gymreig.

**Cam Gweithredu: 3.2 Hyrwyddo gwasanaeth cyfieithu a chyngor Cymraeg am ddim Busnes Cymru, Helo Blod, i'n cymuned fusnes**

**Cynnydd 2025-2026:**

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn anfon cylchlythyr bob pythefnos sy'n cynnwys gwybodaeth am gynllun Helo Blod.

**Cam Gweithredu: 3.3 Sicrhau bod y Gymraeg a threftadaeth a diwylliant Cymru yn elfen allweddol o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.**

**Cynnydd 2025-2026:**

Rydym yn parhau i integreiddio'r Gymraeg ac ymdeimlad o le ym mhob cam gweithredu ac ymgyrchoedd marchnata'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau.

Mae'r holl weithgarwch marchnata ar draws lleoliadau masnachol y Cyngor, gan gynnwys Parc Gwledig Margam, Parc Gwledig y Gnoll, Yr Orendy, Canolfan Gelfyddydau Pontardawe a Theatr y Dywysoges Frenhinol yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog ar

draws digidol, print, cyfryngau cymdeithasol, hysbysebu a deunyddiau ar y safle, gan sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Mae rhaglen digwyddiadau'r Gymraeg yng Nghanolfan Gelfyddydau Pontardawe wedi cael ei hyrwyddo mewn partneriaeth â Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot. Yn ogystal â hynny, mae'r tîm hefyd wedi cyflwyno hysbysebu cyfryngau cymdeithasol wedi'i dargedu sy'n targedu defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol Cymraeg yn uniongyrchol. Mae'r tîm hefyd yn hyrwyddo cynnwys Cymraeg drwy sianeli corfforaethol mewnol a rhwydweithiau partneriaid allanol.

Creodd y Tîm Marchnata Masnachol fideo cyfryngau cymdeithasol traws-leoliad i nodi 'Diwrnod Shwmae Su'mae' ar Hydref 15fed 2025, yn cynnwys staff o wahanol rolau yn ein lleoliadau masnachol yn defnyddio cyfarchion Cymraeg, gan gyflawni cyrhaeddiad organig cyfunol o tua 20,000 ar draws Facebook ac Instagram.

Mae'r tîm hefyd yn cynnal ymarfer ail-frandio ar gyfer y lleoliadau masnachol, gyda marchnata dwyieithog wedi'i wreiddio fel egwyddor graidd.

Caiff unrhyw Raglen Celfyddydau Cymraeg yn CnPT ei hyrwyddo i staff y cyngor a'r cyhoedd yn Saesneg ac yn Gymraeg yn gyfartal a chaiff postiadau wedi'u targedu at siaradwyr Cymraeg eu hanfon lle bo'n briodol.

Mae allbynnau a thargedau yr ymgyrchoedd dwyieithog Calon Ddramatig Cymru a Balchder Bro a gyflawnwyd yn cynnwys cyrhaeddiad ymgyrch o dros 2 filiwn (2,428,223) a chyrhaeddiad o 1 filiwn a thri chant ar gyfryngau cymdeithasol (1,358,851). Mae allbynnau ychwanegol yn cynnwys cyfanswm o 45,104 o ymgysylltiadau, 10 blogiwr ac ymweliadau'r wasg, 21 darn o gyfryngau, cynnydd o 48% mewn dilynwyr cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltiad â chyfanswm o 93 o randdeiliaid.

Mae dull dwyieithog wedi'i wreiddio ar draws ein holl farchnata lleoliadau, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynrychioli'n gyson yn ein harwyddion ar y safle, arddangosfeydd a hysbysebu digidol a phrint, a chyfathrebu ar gyfer cwsmeriaid.

Mae taith y cwsmer ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a gellir adnabod staff sy'n siarad Cymraeg trwy eu defnydd o fathodynnau 'Cymraeg'.

Mae pob prosiect celfyddydol sy'n digwydd mewn cyfleusterau hamdden a diwylliannol yn cael ei hyrwyddo'n ddwyieithog, gan gynyddu gwelededd yr iaith.

Mae hyrwyddo cynllun Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru i leoliadau gan gynnwys lleoliadau cymunedol yn annog mwy o ddigwyddiadau Cymreig/lleol/Cymraeg ar draws CnPT.

Cynhyrchwyd holl arwyddion, dehongliadau a hyrwyddiadau cyfryngau cymdeithasol Pafiliwn CBSCNPT yn Gymraeg a Saesneg ochr yn ochr â fideos yn arddangos 'Antur' a 'Chreadigrwydd' yn CnPT. Roedd staff CnPT sy'n siarad Cymraeg yn bresennol drwy gydol yr wythnos i groesawu ymwelwyr ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn Gymraeg. Fe wnaethon ni hefyd groesawu ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddefnyddio ein gofod perfformio ar gyfer ymarferion.

## Cam Gweithredu: 3.4 Gweithio gyda Chymdeithas Cymuned BME CnPT i archwilio ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth o iaith a diwylliant Cymru mewn cymunedau

**Cynnydd 2025-2026:**

Ym mis Hydref 2025, cynhaliwyd digwyddiad yng Nghanolfan Gelfyddydau Pontardawe ar gyfer Dathliad Windrush, gyda chefnogaeth gan y Rhwydwaith Gweithwyr Ethnig. Daeth nifer dda i'r digwyddiad, gyda chyflwyniadau dwyieithog yn cael eu gwneud a pherfformiad gan y gantores werin Gymraeg, Kizzy Crawford.

## Cam Gweithredu: 3.5 Datblygu ffocws Cymraeg i ymgyrch 'Dewch i Sgwrsio' y Cyngor, gyda 'Dewch i Sgwrsio yn Gymraeg'

**Cynnydd 2025-2026:**

Yn ystod Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025, lansiodd y cyngor ei ymgyrch Dewch i Sgwrsio, sy'n cyfeirio trigolion at gyfleoedd ac adnoddau ar gyfer defnyddio a dysgu'r Gymraeg fel rhan o ymdrechion ehangach y cyngor i gefnogi a hyrwyddo'r iaith.

Ers lansio'r ymgyrch, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y digwyddiadau Cymraeg yn y gronfa ddata "Digwyddiadau". Cyfanswm o 133 o ddigwyddiadau rhwng 2025 a 2026, o'i gymharu â 45 o ddigwyddiadau yn 2024 a 2025.

Ers lansio'r ymgyrch, mae'r dudalen we wedi derbyn bron i 200 o ymweliadau.

Mae fersiwn Gymraeg gwefan y Cyngor wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr ymweliadau, o 22,284 yn 2024-2025, i 53,809 yn 2025-2026.

**Cam Gweithredu: 3.6 Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo fel rhan o system fonitro SPF ar gyfer prosiect Angor Busnes y Cyngor, h.y., casglu data allweddol, a nodi a oes angen cefnogaeth i weithredu arferion fel rhan o'r system Rheoli Cwsmeriaid Datblygu Economaidd newydd.**

**Cynnydd 2025-2026:**

Mae'r Gronfa hon bellach ar gau – parhawyd i ddilyn diweddariad 2024/25 drwy gydol y cyfnod cyflawni. Mae'r tîm Datblygu Economaidd bellach yn gweithio ar gais newydd am Gyllid Twf Lleol (prosiect 3 blynedd) a fydd yn parhau i hyrwyddo dewisiadau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg mewn perthynas â'r holl ddeunyddiau hyrwyddo a phrosesau ymgeisio.

Ers dechrau 2025, mae llif gwaith y tîm Datblygu Economaidd wedi symud yn sylweddol o ddarparu gwasanaethau cymorth busnes prif ffrwd y Cyngor i weinyddu'r 5 Cronfa Pontio Tata (gwerth tua £30m). Er ein bod yn annog defnyddio'r Gymraeg o ran hyrwyddo'r cynlluniau a sicrhau bod y rhai sy'n dymuno gwneud cais yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny, nid oes unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol penodol ar gyfer y Gymraeg i'w bodloni.

**Cam Gweithredu: 3.7 Archwilio dichonoldeb creu cydlynydd hyrwyddo'r Gymraeg i weithio gyda gwasanaethau a phartneriaid**

**Cynnydd 2025-2026:**

Mae'r Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg wedi dechrau ar ei swydd ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar dargedau fel y'u nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda staff sy'n arwain ar ddatblygu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol a meithrin ethos iaith cryf. Mae'r tîm yn hyrwyddo dull cyfannol o addysgu Cymraeg, gyda phwyslais clir ar lafaredd, ac yn darparu cefnogaeth yn y dosbarth i athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu. Er bod y rhan fwyaf o'r gefnogaeth hon yn digwydd mewn ysgolion cynradd, mae gan arweinwyr canol y Gymraeg yn y sector uwchradd fynediad at yr un gyfres o adnoddau dysgu proffesiynol defnyddiol.

## Maes gwaith: Gwreiddio’r Gymraeg yn ein holl strategaethau a chynlluniau

### Cam Gweithredu: 3.8 Datblygu ein polisi sgiliau iaith mewnol a’i roi ar waith ar draws ein meysydd gwasanaeth

**Cynnydd 2025-2026:**

Yn ystod 2025-2026, aeth y Cyngor ymlaen i ddatblygu Polisi Defnydd Mewnol o’r Gymraeg, fel rhan o gynllun peilot dan arweiniad Comisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â’r maes gwaith hwn. Bwriedir cyhoeddi'r polisi yn ystod blwyddyn ariannol 2026–27 a bydd yn cyd-fynd â mentrau Cymraeg ehangach, sydd i gyd yn anelu at gynorthwyo staff i gyflawni eu rhwymedigaethau Cymraeg.

### Cam Gweithredu: 3.9 Sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog wrth ddylunio a chymhwyso technolegau newydd

**Cynnydd 2025-2026:**

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i adeiladu ar y sylfeini cryf a sefydlwyd yn y blynyddoedd blaenorol i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn ganolog i ddylunio a darparu gwasanaethau digidol i gwsmeriaid. Mae dylunio cynnwys yn Gymraeg yn parhau i fod yn rhan annatod o'n timau cynnyrch a gwasanaeth gyda'r holl gynnwys digidol newydd yn cael ei ddatblygu'n ddwyieithog yn ddiofyn. Mae ein gwefan gorfforaethol yn parhau i aeddfedu yn dilyn ei hail-lansio ym mis Rhagfyr 2024, gyda chefnogaeth arferion sefydledig fel ysgrifennu mewn parau gyda gwasanaethau a monitro hygyrchedd parhaus trwy Silk tide, gwiriwr hygyrchedd, i sicrhau cydymffurfiaeth â Chanllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We ar draws cynnwys Cymraeg a Saesneg.

Mae ein platfform cyfrif trigolion FyNPT yn parhau i weithredu fel sianel ddigidol gwbl ddwyieithog gyda dewis iaith yn cael ei gymhwyso ar draws trafodion, hysbysiadau a chyfathrebiadau. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym hefyd wedi cyflwyno teclyn AI AWS Translate i gefnogi cyfieithu i'r Gymraeg, gan helpu timau i wella cyflymder a chysondeb wrth gadw adolygiad dynol i sicrhau ansawdd a chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'n Rhaglen Digidol drwy Ddyluniad, y Strategaeth Ddigidol, Data a Thechnoleg, a Safonau Gwasanaeth Digidol CnPT, gan gefnogi cyflawni Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ac atgyfnerthu ein hymrwymiad i Gastell-nedd Port Talbot sy'n gynhwysol yn ddigidol.

**Cam Gweithredu: 3.10 Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu trefniadau coffáu pobl a digwyddiadau ym mholisi'r parth cyhoeddus**

**Cynnydd 2025-2026:**

- Cwblhawyd y prosiect Cysylltiadau Camlesi a'i gyfieithu i'r Gymraeg ym mis Mawrth 2026. Bydd y ddogfen yn fyw yng Ngwanwyn 2026 ar wefan CnPT yn Gymraeg a Saesneg.
- Agorodd y Cynllun Placiau Glas Coffaol newydd ar gyfer enwebiadau ddechrau 2025. Gosodwyd y placiau cwbl ddwyieithog cyntaf ym mis Tachwedd 2025, i anrhydeddu Richard Burton a'i dad mabwysiadol Philip Burton. Dilynwyd y rhain ym mis Mawrth 2026 gyda phlac a ddadorchuddiwyd er anrhydedd i Ray Milland o Gastell-nedd, enillydd Oscar cyntaf Cymru. Cymeradwywyd placiau glas ychwanegol ddiwedd 2025 a byddant yn cael eu gosod yn ddiweddarach yn 2026
- Cyhoeddir holl ddeunydd hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol yn ddwyieithog, yn unol â pholisi ac amodau grant Cyllid y Loteri Iechyd Genedlaethol.
- Mae pob postiad ar blatfformau Cyfryngau Cymdeithasol yn cael ei bostio yn Gymraeg a Saesneg.
- Modiwl hyfforddiant ar-lein Hyfforddiant Staff Cyngor CnPT ar *Drosedd Treftadaeth* ar gael yn Gymraeg a Saesneg i staff ar Thinqi.
- Pob datganiad i'r wasg a gynhyrchwyd o gwmpas *Treftadaeth CnPT.* Cyhoeddir gweithgareddau a phrosiectau'r prosiect yn Gymraeg a Saesneg. Cyhoeddwyd pum datganiad i'r wasg yn 2025/2026.
- Wyth digwyddiad wedi'u trefnu yn 2025/2026 gyda'r holl daflenni a phosteri wedi'u creu ac ar gael yn Gymraeg a Saesneg

**Cam Gweithredu: 3.11 Adolygu'r targed o gynnydd o 1% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn CnPT yn dilyn dadansoddiad o'r holl ddata perthnasol**

**Cynnydd 2025-2026:**

Ni wnaed cynnydd ar hyn yn ystod 2025-2026. Y nod fydd adolygu'r targed hwn yn 2026-27 gyda Fforwm Iaith CnPT a ailsefydlwyd ym mis Mehefin 2025.

**Cam Gweithredu: 3.12 Archwilio sefydlu categori Hyrwyddwr y Gymraeg yng Ngwobrau Tîm CnPT Mewnol y Cyngor**

**Cynnydd 2025-2026:**

Mae Gwobrau Tîm CnPT wedi dod i ben; o ganlyniad, nid yw'r cam hwn yn berthnasol mwyach.